TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.5

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 1

    Nodau'r Canllawiau Addysgu ... 1

    Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ... 1

Strwythur y Cymhwyster ... 2

Asesiad ... 3

    Crynodeb o'r Asesu Uned 1 ... 3

Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ... 3

Trosolwg o Uned 1 Modern: Opsiwn 1.5 Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892 ... 4

Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.5 Modern: Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892 ... 5

Profiadau Dysgu ... 30

Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 31

Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 1.5 Modern: Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892 ... 38


© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Asesiad

## Crynodeb o'r Asesu Uned 1

**Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**

**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**Yr Oesoedd Canol**
**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132 – tua 1197
**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354 – tua 1416

**Modern Cynnar**
**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547
**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603–tua 1660

**Modern**
**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892
**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Modern: Opsiwn 1.5 Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn amser. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o natur protest yng Nghymru yn y cyfnod o tua 1831 i tua 1892.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Modern | 1.5 | Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892 |
| | 1.5.1 | Gwrthryfel Merthyr, 1831 |
| | 1.5.2 | Terfysgoedd Beca, 1839-1843 |
| | 1.5.3 | Siartiaeth yng Nghymru |
| | 1.5.4 | Llyfrau Gleision 1847 a'u heffaith yng Nghymru |
| | 1.5.5 | Rhyfel y Degwm yng ngogledd-ddwyrain Cymru, 1886-1892 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.5 Modern: Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| **1.5 Cefndir: newid ac anniddigrwydd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg**<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • economi a chymdeithas Cymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, newid demograffig a nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd diwydiannol. | Effaith y Chwyldro Diwydiannol ar aneddiadau yng Nghymru.<br><br>Effaith y Chwyldro Diwydiannol ar economi Cymru. | **Gweithgareddau**:<br>Edrychwch ar y map aneddiadau o Gymru (Ffocws ystadegol Ffig. 2.1) a dewch o hyd i ble rydych chi'n byw/dysgu. A yw'n drefol neu'n wledig?<br>Beth rydych chi’n ei sylwi am natur aneddiadau yng Nghymru?<br><br>Edrychwch ar y map o Gymru a Lloegr (Ffig. 2.2). Beth yw'r nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr?<br><br>Esboniwch darddiad a datblygiad y Chwyldro Diwydiannol a sut effeithiodd hwnnw ar Gymru. | **Gwefan(nau):**<br>Industrial Revolution in Wales<br><br>Merthyr Tudful - Deall Nodweddion Trefol<br><br>200 years of the census in Wales<br><br>Cymru Ddiwydiannol \| Cadw<br><br>**Map(iau):**<br>Statistical-focus Wales 2008.pdf<br><br>Outline map of Wales | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Lluniadwch siart yn amlinellu'r twf ym mhoblogaeth Cymru yn y 19eg ganrif (gweler y cyfrifiad).<br><br>Cymharwch a chyferbynnwch nodweddion ardaloedd amaethyddol a nodweddion ardaloedd diwydiannol.<br><br>Ar fap amlinellol o Gymru, nodwch leoliad prif ardaloedd diwydiannol, gan nodi eu heffaith economaidd ar Gymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith y Chwyldro Diwydiannol ar aneddiadau ac economi Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch: Gan ddefnyddio'r adnoddau a'r mapiau, esboniwch sut newidiodd cyfansoddiad daearyddol Cymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>**Canlyniad Uwch:**<br>Gall dysgwyr gyfosod y ffactorau wnaeth gyfrannu at newid demograffig yng Nghymru rhwng tua 1800 a thua 1850. | **Llyfr(au):**<br>O Murphy, D et al. 2003. *Britain 1783-1918,* Pennod 1.1-1. 4<br><br>Scott-Baumann, M., 2006. *Reforming Britain 1815-50,* Pennod 1<br><br>Wilkes, A., 2014. *Britain 3–1745: Industry, Invention and Empire,* Pennod 1 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y rhesymau dros radicaliaeth ac anniddigrwydd yng Nghymru, streiciau, protestiadau a galwadau ehangach am ddiwygio gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. | Dealltwriaeth o'r amodau gwaith ar ddechrau'r 19eg ganrif.<br><br>Dealltwriaeth o'r angen am ddiwygiad gwleidyddol ar ddechrau'r 19eg ganrif. | **Gweithgareddau:**<br>Cwblhewch weithgaredd yr Archif Genedlaethol, *All Work and No Play*, a thrafodwch sut beth oedd bywyd gwaith ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>Mewn grwpiau, cwblhewch un o'r tair tasg o weithgaredd yr Archif Genedlaethol - *What caused the 1832 Great Reform Act?* Crynhowch eich canfyddiadau a'u hesbonio i weddill y dosbarth.<br><br>Defnyddiwch eich gwybodaeth am fywyd gwaith a'r rhesymau dros y galw am ddiwygiad gwleidyddol, darllenwch y ddogfen Blackening of Wales a rhowch restr o resymau, gan gynnwys enghreifftiau o Gymru, pam yr oedd anniddigrwydd cynyddol yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros yr anniddigrwydd yn y Deyrnas Unedig gan gyfeirio'n benodol at Gymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>I ba raddau yr oedd diwygiad gwleidyddol yn bwysicach na diwygiadau yn yr amgylchedd gwaith yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gymryd rhan mewn dadl ar bwysigrwydd cymharol diwygio cymdeithasol a gwleidyddol. | **Gwefan(nau):**<br>All Work and No Play - The National Archives<br><br>What caused the 1832 Great Reform Act? - The National Archives<br><br>BBC - The Blackening of Wales<br><br>**Llyfr(au):**<br>O Murphy, D et al. 2003. *Britain 1783-1918,* Pennod 1.1-1. 4<br><br>Scott-Baumann, M., 2006. *Reforming Britain 1815-50,* Pennod 1<br><br>Martin, D. 2000. *Britain 1815-1851*, Pennod 1.1-1 | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Gwrthryfel Merthyr, 1.5.1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • achosion y gwrthryfel, gan gynnwys:<br>  ◦ agweddau a gweithredoedd y meistri haearn, gan gynnwys teulu Crawshay, Cyfarthfa<br>  ◦ amodau byw a gweithio pobl Merthyr Tudful. | Cefndir datblygiad Merthyr fel canolfan ar gyfer haearn.<br><br>Y prif feistri haearn ym Merthyr a'u hagweddau a'u gweithredoedd.<br><br>Y rhesymau dros yr amodau byw a gweithio gwael ym Merthyr.<br><br>Effaith yr amodau byw a gweithio gwael hynny, gan gynnwys yn yr ardal oedd yn cael ei galw'n China. | **Gweithgareddau:**<br>Ymchwil – Yn seiliedig ar erthygl *Wales Online*, beth oedd y pedwar gwaith haearn ym Merthyr, a pha ddau oedd fwyaf arwyddocaol. Pa mor arwyddocaol oedden nhw?<br><br>Mewn grwpiau, darllenwch ddeunyddiau teulu Crawshay a gwnewch nodyn ar bob aelod gan nodi dwy ffaith bwysig am bob un.<br><br>Trafodwch:<br>• farn y gweithwyr ar William Crawshay II a Josiah Guest<br>• yr agweddau tuag at weithwyr y ddau ŵr hyn (defnyddiwch ddeunydd perthnasol o'r erthyglau *Merthyr's Ironmasters: William Crawshay II* a *The Merthyr Rising 1831*).<br><br>Diagram dosbarth: esboniwch achosion Gwrthryfel Merthyr (e.e. achosion tymor hir a thymor byr, rôl unigolion ac ati)<br><br>Nodwch bum nodwedd amodau byw a gweithio pobl Merthyr Tudful tua 1830. Rhowch nhw mewn trefn o'r gwaethaf (1) i'r lleiaf gwael (5). Esboniwch eich dewisiadau. Defnyddiwch *BBC Bitesize,* erthygl *BBC News* a *The Melting Pot: 'China'.* | **Gwefan(nau):**<br>Merthyr Tydfil was a town with a single purpose ... to make iron and steel - Wales Online<br><br>CRAWSHAY ( TEULU), Cyfarthfa, Sir Forgannwg \| Y Bywgraffiadur Cymreig<br><br>Merthyr's Ironmasters: William Crawshay II<br><br>Gwrthryfel Merthyr, 1831: rage, rebellion and the red flag<br><br>BBC Bitesize - The pressures of industrialisation and urbanisation<br><br>The Prince of Wales: Life in Merthyr Tydfil's 19th Century | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodaeth: edrychwch ar dudalennau 1-8 o *CADW - Merthyr Rising Comic.* Pa mor ddefnyddiol i haneswyr yw portreadau fel hyn?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall achosion Gwrthryfel Merthyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwyliwch/gwrandewch ar yr adran gyntaf o *19th Century Welsh insurrection* (hyd at 18:45) a gwnewch nodiadau. Esboniwch pam yr oedd y digwyddiadau ym Merthyr yn ganlyniad i "storm berffaith" o amodau yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>**Canlyniad uwch:** Gall dysgwyr gyfosod y problemau a'r gweithredoedd amrywiol wnaeth arwain at Wrthryfel Merthyr. | 'Little Hell' - BBC News<br><br>The Melting Pot: 'China'<br><br>CADW - Merthyr Rising Comic<br><br>**Fideo(s):**<br>It's kicking off in South Wales! The Merthyr Rising of 1831 (first 3 minutes)<br><br>19th Century Welsh insurrection \| The Merthyr Rising \| The Rebecca Riots \| The Chartists Revolt<br><br>**Llyfr(au):**<br>England, J. 2020. *Merthyr: The Crucible of Modern Wales,* Pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • digwyddiadau'r gwrthryfel, gan gynnwys:<br>• radicaliaeth a ffurfio undeb gwleidyddol<br>• protestiadau yng Nghwrt y Deisyfion, Tafarn y Castell a Thŷ Penydarren. | Cwrs y gwrthryfel.<br><br>Gofynion y gwrthryfelwyr.<br><br>Natur ac effaith y protestiadau yng Nghwrt y Deisyfion, Tafarn y Castell a Thŷ Penydarren. | **Gweithgaredd:**<br>Gwyliwch *Wales and the History of the World - Merthyr Rising* a thrafodwch pam yr ystyrir bod Gwrthryfel Merthyr yn ddigwyddiad mor bwysig yn hanes y dosbarth gweithiol.<br><br>Ymchwiliwch i ddigwyddiadau Gwrthryfel Merthyr a lluniwch linell amser ohonynt, gan gynnwys o leiaf y canlynol:<br>• datblygiad radicaliaeth ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg<br>• ffurfio undebau gwleidyddol ymysg gweithwyr<br>• rôl William Crawshay<br>• diswyddo 'pydlwyr'<br>• rôl Lewis Lewis<br>• codi'r faner goch<br>• digwyddiadau yng Nghwrt y Deisyfion<br>• digwyddiadau yn Nhafarn y Castell<br>• digwyddiadau yn Nhŷ Penydarren<br><br>Gall dysgwyr ddefnyddio'r erthygl *Merthyr Rising - Wikipedia*, tudalennau 9-15 o'r CADW comic, erthygl Marxist.com a'r fideo It's kicking off in South Wales! O ystyried cymhlethdod erthygl *Marxist.com*, gellid ei rhannu'n adrannau a'i rhoi i grwpiau gwahanol.<br><br>Archwiliwch ofynion y protestwyr: beth oeddent a beth oeddent yn gobeithio ei gyflawni? | **Erthygl(au):**<br>Gwrthryfel Merthyr, 1831: rage, rebellion and the red flag - Marxist.com<br><br>Merthyr Rising - Wikipedia<br><br>CADW - Merthyr Rising Comic<br><br>**Fideo(s):**<br>Wales and the History of the World - Merthyr Rising<br><br>It's kicking off in South Wales! The Merthyr Rising of 1831 (o 3 munud ymlaen)<br><br>**Llyfr(au):**<br>England, J. 2020. *Merthyr: The* Crucible of Modern Wales, Pennod 5 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall llinell amser digwyddiadau'r gwrthryfel.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Nodwch y trobwyntiau yn y gwrthryfel, ac esboniwch pam mae'r rhain yn arwyddocaol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr bwyso a mesur arwyddocâd rhannau allweddol o Wrthryfel Merthyr. | | |
| • canlyniadau'r gwrthryfel gan gynnwys:<br>  • gweithredoedd yr awdurdodau a'r meistri haearn ym Merthyr<br>  • y driniaeth a roddwyd i derfysgwyr gan gynnwys Dic Penderyn. | Canlyniadau tymor hir a thymor byr Gwrthryfel Merthyr.<br><br>Ymateb yr awdurdodau i'r terfysgwyr, gyda phwyslais ar Dic Penderyn (Richard Lewis). | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch ar eich llinellau amser, edrychwch ar *Canlyniadau Terfysg Merthyr* (Trefnydd Gwybodaeth CBAC), ac ystyriwch ganlyniadau Gwrthryfel Merthyr. Trafodwch: pa mor fawr oedd bygythiad Gwrthryfel Merthyr i'r awdurdodau?<br><br>Archwiliwch y dystiolaeth yn erbyn Richard Lewis (Dic Penderyn). Pam cafodd ei ddienyddio am yr ymosodiad ar Breifat Donald Black? A yw'r driniaeth o'r protestwyr yn newid neu'n cadarnhau eich barn ar arwyddocâd Gwrthryfel Merthyr?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth o ganlyniadau Gwrthryfel Merthyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymateb testun parhaus i gwestiwn yn ymwneud ag effaith Gwrthryfel Merthyr. | **Gwefan(nau):**<br>Trefnydd Gwybodaeth CBAC<br><br>BBC Wales – Dic Penderyn<br><br>CADW - Merthyr Rising Comic<br><br>**Llyfr(au):**<br>England, J. 2020. *Merthyr: The Crucible of Modern Wales*, Pennod 6 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ymarfer eu sgiliau ysgrifennu, wrth ddadansoddi a gwerthuso arwyddocâd Gwrthryfel Merthyr. | | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.5.2 Terfysgoedd Beca, 1839-1843** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y rhesymau dros Derfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  • natur perchnogaeth tir yng ngorllewin a chanolbarth Cymru<br>  • problemau i gymunedau gwledig gan gynnwys y degwm a thollbyrth. | Deall tynged y tenantiaid fferm yng Nghymru yn ystod Terfysgoedd Beca a'r effaith gafodd hyn ar eu bywydau pob dydd.<br><br>Deall yr effaith a gafodd talu degwm i'r eglwys a'r tollbyrth ar fywydau'r tenantiaid fferm. | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch eto ar bum paragraff cyntaf yr erthygl *BBC – Rebecca Riots* a lluniwch siart llif sy'n esbonio:<br>• y mannau lle digwyddodd y terfysgoedd<br>• y tensiynau sylfaenol mewn cymunedau gwledig<br>• pa grŵp mewn cymdeithas oedd yn berchen ar y mwyaf o dir ffermio<br>• y broses o gau tir<br>• talu'r degwm<br>• effaith Deddf Newydd y Tlodion<br>• sefydlu ymddiriedolaethau tollbyrth.<br><br>Defnyddiwch ran gefndir y *National Archives.* Mewn grwpiau, o safbwynt tenant fferm, ysgrifennwch lythyr at un o'r canlynol gan esbonio eich achwynion:<br>• y landlord<br>• y gweinidog Anglicanaidd lleol<br>• yr Aelod Seneddol lleol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cefndir cymdeithasol, economaidd a chrefyddol y terfysgoedd. | **Gwefan(nau):**<br>The Rebecca Riots - BBC History<br><br>The National Archives - Rebecca Riots - What happened during them?<br><br>Terfysg Beca (Cymraeg/Welsh) - The National Archives<br><br>**Fideo(s):**<br>19th Century Welsh insurrection \| The Merthyr Rising \| The Rebecca Riots \| The Chartists Revolt<br><br>**Llyfr(au):**<br>Williams, D. 1986. *The Rebecca Riots,* Pennod 3 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Gwyliwch/gwrandewch ar adran gyntaf *19th Century Welsh insurrection* (18:45 i 28:40) a gwnewch nodiadau. Beth oedd prif achos Terfysgoedd Beca, yn eich barn chi?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr werthuso'r pryderon cymdeithasol, economaidd a chrefyddol amrywiol wnaeth  gyfrannu at Derfysgoedd Beca. | | |
| • digwyddiadau Terfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  • yr ymosodiad ar y clwydi yn Efailwen yn 1839<br>  • yr ymosodiad ar Wyrcws Caerfyrddin, 1843. | Deall digwyddiadau'r ymosodiadau ar Efailwen a'r rhesymau pam dewisodd yr ymosodwyr wisgo dillad menywod.<br><br>Deall digwyddiadau'r ymosodiadau ar Wyrcws Caerfyrddin a'r rhesymau pam targedodd yr ymosodwyr y wyrcws. | **Gweithgareddau:**<br>Fel dosbarth, gan ddefnyddio adnoddau'r *BBC, Historic UK* a *Carmarthen workhouse*, rhowch grynodeb o brif ddigwyddiadau Terfysgoedd Beca.<br><br>Mewn grwpiau, cwblhewch y gweithgareddau o'r *National Archive's (NA's) Rebecca resource* (mae fersiwn syml ar gael ar gyswllt y Gymdeithas Hanesyddol os bydd angen). Gweler hefyd y map yn fersiwn PDF y National Archive (Saesneg yn unig).<br><br>Cyflwynwch ddadl: "Efailwen oedd gyntaf, ond roedd Caerfyrddin yn waeth". Beth oedd y prif foment yn Nherfysgoedd Beca yn eich barn chi – yr ymosodiad ar y clwydi yn Efailwen neu'r ymosodiadau ar Wyrcws Caerfyrddin? | **Gwefan(nau):**<br>BBC Wales History - The Rebecca Riots<br><br>Historic UK - The Rebecca Riots<br><br>Rebecca Riots: What happened during them? - The National Archives<br><br>Using different sources to bring a topic to life: The Rebecca Riots Historical Association<br><br>The Workhouse in Carmarthen, Carmarthenshire | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall digwyddiadau Terfysgoedd Beca a chymhwyso eu sgiliau dadansoddi a gwerthuso ffynonellau cyfoes i wella eu dealltwriaeth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i darddiad y wyrcws ac esboniwch pam eu bod yn cael eu casáu gymaint yn y cyfnod hwn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall anawsterau economaidd-gymdeithasol y cyfnod ac ymateb y llywodraeth iddynt. | **Llyfr(au):**<br>Williams, D. 1986.<br>*The Rebecca Riots,*<br>Penodau 7 ac 8 | |
| • canlyniadau Terfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  • ymateb yr awdurdodau i'r terfysgoedd<br>  • y Comisiwn Ymchwilio a'i effeithiau. | Y driniaeth a gafodd rhai o'r terfysgwyr gan gynnwys trawsgludiad a'r gosb eithaf.<br><br>Ymateb y wasg Brydeinig i Beca.<br><br>Y rhesymau dros y Comisiwn Ymchwilio a'i ganlyniadau. | **Gweithgareddau:**<br>Defnyddiwch adnoddau *Llandeilo History* a *Bangor University History* a lluniwch ddiagram corryn sy'n amlinellu'r ffyrdd gwahanol yr ymatebodd yr awdurdodau a'r wasg i'r terfysgwyr.<br><br>Lluniwch bwyntiau bwled o resymau pam cafodd y Comisiwn Ymchwilio ei sefydlu, a beth oedd ei brif ganfyddiadau.<br><br>Trafodaeth: Pa mor arwyddocaol oedd Thomas Campbell Foster o *The Times* i ddealltwriaeth y cyhoedd ehangach o'r terfysgwyr a'u cymhellion. | **Gwefan(nau):**<br>Llandeilo History - The Dynevor Peerage - The Rebecca Riots<br><br>Bangor University History<br><br>**Archif(au):**<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Canlyniadau Chwiliad Rebecca Riots | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Ymarfer testun parhaus: esboniwch beth oedd fwyaf arwyddocaol – Gwrthryfel Merthyr neu Derfysgoedd Beca.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr bwyso a mesur arwyddocâd cynnwrf gwledig/amaethyddol yn erbyn cynnwrf trefol/diwydiannol yng nghyd-destun dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>Williams, D. 1986. *The Rebecca Riots*, Penodau 9 ac 10 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.5.3 Siartiaeth yng Nghymru** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pam roedd galw am ddiwygio yng Nghymru yn yr 1830au, gan gynnwys:<br>• lefelau diweithdra ac effaith Deddf y Tlodion yn 1834<br>• radicaliaeth a chanlyniadau Deddf Ddiwygio Fawr, 1832. | Amodau byw a gweithio ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>Y rhesymau dros Ddeddf Ddiwygio Fawr 1832, a'i chanlyniadau.<br><br>Cyflwyno Deddf y Tlodion yn 1834 a'i heffaith uniongyrchol. | **Gweithgareddau**:<br>Gwyliwch fideo BBC Bitesize *Why was reform needed?* ac yna darllenwch yr adrannau ar *Peterloo, 1819* a'r *1832 Reform Act.* Gwnewch nodiadau i baratoi ar gyfer trafod: pam oedd pobl yn ofni chwyldro ym Mhrydain cyn tua 1832?<br><br>Mewn dau grŵp, bydd dysgwyr yn cwblhau adnodd *1832 Great Reform Act* neu *1834 Poor Law* The National Archive. Byddant yn rhoi crynodeb o'r rhesymau dros y Ddeddf a'i heffaith ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r grŵp arall.<br><br>Defnyddiwch adnoddau i ystyried bywyd yn y wyrcws ac effaith Deddf y Tlodion 1834 ar bobl yng Nghymru.<br><br>Gwyliwch yr adnoddau fideo a chymharwch addewidion Deddf Ddiwygio Fawr 1832 a'i chanlyniadau yng Nghymru.<br><br>Ysgrifennwch baragraff yn trafod pam gallai grwpiau radical fod wedi teimlo eu bod wedi'u dadrithio. | **Gwefan(nau):**<br>Why was reform needed? - Pressure for democratic reform up to 1884 - National 5 History Revision - BBC Bitesize<br><br>What caused the 1832 Great Reform Act? - The National Archives<br><br>1834 Poor Law - The National Archives<br><br>Dadansoddwch y berthynas rhwng Welfare cuts and crime in 19th-century England and Wales<br><br>Workhouses in Wales<br><br>The Workhouse in Carmarthen, Carmarthenshire | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall methiannau ymdrechion i ddiwygio hyd at y pwynt hwn.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dadansoddwch y berthynas rhwng *Welfare cuts and crime in 19th-century England and Wales.*<br><br>Gwyliwch y fideo *Lord Grey.* Pa mor arwyddocaol oedd Arglwydd Grey i Ddeddf Ddiwygio Fawr 1832?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr drafod effaith gadarnhaol a negyddol deddfwriaeth lywodraethu – bwriadol neu ddim. | **Llyfr(au):**<br>Royle, E a Lockyer, R. 1997. *Chartism,* Penodau 1 a 2 (gweler hefyd y Gronoleg)<br><br>**Fideo(s):**<br>Pa mor arwyddocaol oedd Arglwydd Grey i Ddeddf Ddiwygio Fawr 1832<br><br>19th Century Welsh insurrection \| The Merthyr Rising \| The Rebecca Riots \| The Chartists Revolt | |
| • datblygiad mudiad y Siartwyr, gan gynnwys:<br>  • Siarter y Bobl a thair deiseb y Siartwyr<br>  • dadleuon rhwng yr arweinwyr Feargus O'Connor a William Lovett. | Chwe gofyniad y siarter.<br><br>Gwrthod tair deiseb y Siartwyr a methiant y rali ar Gomin Kennington yn 1848.<br><br>Effaith y sefyllfa economaidd ar fomentwm y Siartwyr. | **Gweithgareddau:**<br>Crynodeb: Fideos *The Great Reform Act 1832: Origins and Opposition* a *What did the Great Reform Act 1832 mean for the working class?* . Pam pasiwyd y Ddeddf a pham yr oedd cymaint o bobl wedi'u siomi ynddi?<br><br>Gan ddefnyddio'r adnoddau, cwblhewch y tasgau canlynol:<br>• archwiliwch chwe gofyniad Siarter y Bobl ac ystyriwch ei hapêl i'r bobl<br>• lluniwch fwrdd stori yn mapio effeithiau mudiad y Siartwyr dros yr 1830au a'r 1840au | **Gwefan(nau):**<br>The National Archives - What was Chartism?<br><br>Chartism - Pressure for democratic reform up to 1884 - National 5 History Revision - BBC Bitesize | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd gan grwpiau'r Siartwyr a'r nodau gwahanol.<br><br>Y gwahaniaethau barn rhwng Feargus O'Connor a William Lovett. | • lluniwch dasg cymharu rhwng y ddau fath o Siartwyr fel treisgar ac anhreisgar. Dylid cymharu eu dulliau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall tarddiad a datblygiad mudiad y Siartwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Lluniwch gyflwyniad byr ar oblygiadau pleidlais gyffredinol ar hawliau dynol.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall pwysigrwydd democratiaeth a phleidlais ar y ffordd rydym yn byw heddiw. | BBC - History - British History in depth: The Chartist Movement 1838 - 1848<br><br>UK Parliament – the Chartists movement<br><br>**Fideo(s):**<br>Fideos The Great Reform Act 1832: Origins and Opposition \| Made with the UK Parliamentary Archives<br><br>Origins and Opposition a What did the Great Reform Act 1832 mean for the working class? \| People's History Museum<br><br>**Llyfr(au):**<br>Royle, E a Lockyer, R. 1997. *Chartism,* Pennod 3 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effaith Siartiaeth, gan gynnwys:<br>• Gwrthryfel Casnewydd, 1839<br>• methiannau tymor byr a llwyddiannau tymor hir Siartiaeth. | Digwyddiadau'r gorymdeithio ar Gasnewydd yn 1839 gan gynnwys y gorymdeithio hir i Gasnewydd ac ymateb yr awdurdodau.<br><br>Y driniaeth a gafodd Siartwyr Casnewydd yn y misoedd ar ôl y gorymdeithio, gan gynnwys John Frost a Zephaniah Williams.<br><br>Methiannau tymor byr a llwyddiannau tymor hir mudiad y Siartwyr. | **Gweithgareddau:**<br>Defnyddiwch adnoddau *BBC Bitesize* a'r fideo *What was the Newport Rising?* a lluniwch siart llif sy'n esbonio'r rhesymau dros Wrthryfel Casnewydd a'i broses.<br><br>Trafodwch: Pam oedd Casnewydd yn ffocws penodol i fudiad y Siartwyr?<br><br>Gwyliwch y fideo *Why did the Second Chartist petition of 1842 fail?* a gwnewch nodiadau. Yna gwyliwch y fideo *What was the significance of Chartism?* ac ategwch y nodiadau hynny. Mewn grwpiau, paratowch ddadleuon o blaid ac yn erbyn arwyddocâd Siartiaeth. Gan ystyried methiant tymor byr a chyflawniad tymor hir y rhan fwyaf o nodau Siarter y Bobl, i ba raddau yr oedd mudiad y Siartwyr yn llwyddiant?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith Siartiaeth ar bobl Cymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwyliwch/gwrandewch ar yr adran olaf o *19th Century Welsh insurrection* (o 28:43) a gwnewch nodiadau. Ai mudiad y Siartwyr oedd y catalydd ar gyfer diwygio etholiadol effeithiol yn y DU?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddadlau ynghylch effaith tymor hir Siartiaeth ar y system bleidleisio heddiw. | **Gwefan(nau):**<br>BBC Bitesize - Working-class support for Chartism<br><br>BBC Bitesize - Why did Chartism fail?<br><br>The Newport Rising \| Parliamentary Archives: Inside the Act Room<br><br>**Fideo(s)**<br>What was the Newport Rising? \| A brief history of the Newport Rising 1839<br><br>Why did the Second Chartist petition of 1842 fail? \| Why did Chartism fail?<br><br>What was the significance of Chartism? \| 5 Minute History<br><br>19th Century Welsh insurrection \| The Merthyr Rising \| The Rebecca Riots \| The Chartists Revolt | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>Jenkins, G. 2007. *A Concise History of Wales, tt.202-4*<br><br>Royle, E a Lockyer, R. 1997. *Chartism,* Penodau 4 a 5 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.5.4 Llyfrau Gleision 1847 a'u heffaith yng Nghymru | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y rhesymau dros yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • cyflwr addysg yng Nghymru yn yr 1830au a'r 1840au<br>  • pryderon am aflonyddwch cymdeithasol yng Nghymru yn yr 1830au a'r 1840au. | Datblygiad addysg yng Nghymru a Lloegr tua 1800 i 1850.<br><br>Natur a graddau addysg yng Nghymru cyn 1850.<br><br>Effaith Merthyr, Beca a Siartiaeth ar ganfyddiadau'r llywodraeth o Gymru. | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch ar y llinell amser *Education in the UK.* Gan ganolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1800 a 1850, nodwch ddeg mlynedd arwyddocaol o ran datblygiad addysg yn y DU. Esboniwch eich dewisiadau.<br><br>Trafodwch: sut beth oedd addysg yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eich barn chi?<br><br>Mewn grwpiau, edrychwch ar yr adnoddau ac esboniwch beth oedd safbwynt canfyddedig y llywodraeth o Gymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>Galwch ddysgu blaenorol i gof i ddadlau pam yr ystyriwyd bod Cymru yn wlad broblemus i'r llywodraeth yn San Steffan ar yr adeg hon.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut yr oedd blynyddoedd blaenorol o anhrefn ac anfodlonrwydd wedi llywio safbwyntiau ar addysg yng Nghymru, gan gynnwys araith William Williams i ASau yn 1846.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ynghylch cynnig William Williams y dylai plant yng Nghymru ddysgu Saesneg fel iaith orfodol. | **Gwefan(nau):**<br>Education in the UK: a history - Timeline<br><br>Elementary education in the 19th century - UK Parliament<br><br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Report of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales<br><br>BBC Wales History - Brad y Llyfrau Gleision 1847  gellir ei gyfieithu drwy borwr.<br><br>BBC - Wales History: The Treason of the Blue Books<br><br>Education in Wales (1848) - background notes | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall y pryderon (gan y llywodraeth a siaradwyr Cymraeg) am y Gymraeg a'i defnydd yng Nghymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. | | |
| • canfyddiadau'r Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • rôl Ralph Wheeler Lingen, Jellynger Symons a Henry Johnson yn llunio'r adroddiadau Llyfrau Gleision yn 1847<br>  • beirniadu addysg yng Nghymru gan gynnwys defnyddio'r iaith Gymraeg, y niferoedd oedd yn cymryd rhan ac arferion crefyddol. | Pwy oedd Ralph Wheeler Linger, Jellyner Symons a Henry Johnson a beth oedd eu rôl yn llunio'r Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru.<br><br>Y problemau gyda'r Ymchwiliad a gonestrwydd y canfyddiadau.<br><br>Sut a pham aeth yr adroddiad y tu hwnt i gylch gorchwyl yr Ymchwiliad. | **Gweithgareddau:**<br>Gwyliwch fideo *Al Murray* a thrafodwch eich meddyliau fel dosbarth (o 3:16 ymlaen, mae terminoleg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddefnyddio cyn hyn sydd ddim yn briodol).<br><br>Ystyriwch ganfyddiadau'r Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru: lluniwch fywgraffiad byr o Ralph Wheeler Linger, Jellynger Symons a Henry Johnson. Pa ardaloedd o Gymru y gwnaeth pob gŵr ganolbwyntio arnynt? Datblygwch ddiagram corryn ac, mewn dau liw, rhestrwch resymau pam yr oeddent a pham nad oeddent yn addas ar gyfer rôl y comisiynwyr.<br><br>Gwrandewch ar ddarlledіad radio'r BBC o dudalen *Methodism in Wales, 1730-1850* Y Brifysgol Agored a dewiswch ddarnau o *Education in Wales (1848).* Mewn dwy golofn, rhestrwch ganfyddiadau cadarnhaol (teg) a negyddol (annheg) yr Ymchwiliad. Ystyriwch faterion fel pwy a gyfwelwyd, pa gwestiynau a ofynnwyd ac ati.<br><br>Defnyddiwch hyn fel sail ar gyfer dadl: Ar y cyfan, roedd yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru yn adlewyrchiad cywir o gyflwr addysg yng Nghymru. | **Llyfr(au):**<br>Jenkins, G. 2007. *A Concise History of Wales*, *tt.215-7*<br><br>**Gwefannau**<br>Ralph Lingen, 1st Baron Lingen - Wikipedia<br><br>Jellynger Cookson Symons - Wikipedia<br><br>Henry Robert Vaughan Johnson - Wikipedia **DS**: gellir ei gyfieithu drwy borwr.<br><br>*Methodism in Wales, 1730–1850: 8 The Treachery of the Blue Books \| Open Learn - Open University*<br><br>Education in Wales (1848) (web version of the reports) | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rolau'r comisiynwyr a'u diffyg addasrwydd ar gyfer y rolau gan gynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i holi plant.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: A ddaeth y comisiynwyr o hyd i'r hyn roeddent am ei gael yn eich barn chi? O ystyried natur emosiynol y pwnc, a yw'n bosibl llunio barn wrthrychol?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r modd mae rhagfarn a theimladau personol yn gallu amharu ar wrthrychedd. | **Fideo(s):**<br>What did Charles have hidden in his crown? \| Al Murray: Why Does Everyone Hate The English?<br>(o 3:16 **YN UNIG**) | |
| • effaith Adroddiad Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • ei effaith ar addysg yng Nghymru, gan gynnwys y *Welsh Not*<br>  • ymateb y Cymry i'r adroddiad, gan gynnwys y ddrama *Brad y Llyfrau Gleision* yn 1854. | Deall effaith yr adroddiad ar gymdeithas ac addysg yng Nghymru, a goblygiadau'r Welsh Not ar gyfer y Gymraeg.<br><br>Deall ymateb pobl Cymru i'r adroddiad. | **Gweithgareddau:**<br>Gan ddefnyddio'r adnodd *Brad y Llyfrau Gleision* a'ch nodiadau, mewn grwpiau bach:<br>• lluniwch fap meddwl o brif ganfyddiadau'r adroddiad a'u rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd<br>• datblygwch fwrdd stori yn nodi ymatebion pobl Cymru.<br><br>Gwyliwch y fideo a gwnewch nodiadau ar bwy oedd yn gyfrifol am y Welsh Not, pam cafodd ei ddefnyddio a pha mor effeithiol ydoedd.<br><br>Ymchwil – lluniwch fywgraffiad byr o Robert Derfel Jones ac esboniwch beth yr oedd am ei gyflawni drwy gyhoeddi ei ddrama *Brad y Llyfrau Gleision.* | **Gwefan(nau):**<br><br>Brad y Llyfrau Gleision \| Mwy o Stori'r Iaith (mwyostoririaith.cymru)<br><br>DERFEL, ROBERT JONES (1824 - 1905), bardd a sosialydd \| Y Bywgraffiadur Cymreig | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith yr adroddiad ar addysg yng Nghymru ac ar y Gymraeg.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymarfer testun parhaus: esboniwch arwyddocâd tymor hir *Education in Wales (1848): Adroddiadau Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru.*<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall arwyddocâd ac effaith yr ymchwiliad ar Gymru a'r Gymraeg. | Education in Wales (1848) (fersiwn gwe o'r adroddiadau)<br><br>Brad y Llyfrau Gleision - Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br><br>**Fideo(s):**<br>Adnoddau \| Mwy o Stori'r Iaith<br>Yn adran fideo'r dudalen hon, dewiswch *The Acts of Union and the Welsh Not.* | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.5.5 Rhyfel y Degwm yng ngogledd-ddwyrain Cymru, 1886-1892** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • Y rhesymau dros Ryfel y Degwm yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys:<br>  • y baich ar denantiaid i dalu'r degwm, grym y landlordiaid a'r bygythiad o gael eu troi allan<br>  • y gostyngiad mewn prisiau da byw yn yr 1880au | Achosion y dirwasgiad amaethyddol ar ôl 1873.<br><br>Y rhesymau dros y gostyngiad mewn prisiau da byw.<br><br>Cefndir y degwm.<br><br>Sut yr oedd y degwm yn faich ychwanegol ar denantiaid fferm. | **Gweithgaredd:**<br>Defnyddiwch *Mastering Modern British History* gan Lowe i esbonio 'Pam yr oedd dirwasgiad amaethyddol ar ôl 1873 a beth oedd canlyniad hynny?'<br><br>Mewn grwpiau, darllenwch erthygl Wikipedia *Great depression of Britain agriculture* ac yna:<br>**Naill ai**:<br>edrychwch ar y mapiau o *Where was the Great Agricultural Depression?* Gweithiwch allan ystyr yr allwedd i bob map a rhowch grynodeb o'ch canfyddiadau.<br>**Neu.**<br>edrychwch ar Dabl 1 o *Livestock prices in Britain* a lluniwch siart yn dangos yr amrywiadau ym mhrisiau gwlân, ŵyn benyw a gwartheg stôr.<br><br>Trafodwch: pa mor arwyddocaol oedd y methiant amaethyddol yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Beth oedd yr effaith ar gymunedau amaethyddol yn eich barn chi?<br><br>Defnyddiwch erthygl Britannica i baratoi llinell amser o hanes y degwm (DS: caiff Cymru ei chwmpasu gan Loegr yn yr erthygl hon). | **Gwefannau**<br><br>Great depression of British agriculture - Wikipedia<br><br>British Agricultural History Society: Where was the Great Agricultural Depression?<br><br>British Agricultural History Society: Livestock prices in Britain<br><br>Tithe \| Biblical Origins & Modern Practices \| Britannica<br><br>**Llyfr(au):**<br>Bulaitis, J. 2024. *The Tithe War in England and Wales, 1881–1936 A Curious Rural Revolt,* Penodau 1-3 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos y sefyllfa economaidd mewn ardaloedd amaethyddol a baich ychwanegol y degwm.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch: Pam oedd atgasedd penodol yng Nghymru tuag at dalu'r degwm i'r Eglwys Anglicanaidd?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall gwrthwynebiad anghydffurfwyr i'r Eglwys Anglicanaidd. | Lowe, N. 2009. *Mastering Modern British History* (4ydd argr.), Pennod 15.4a-b | |
| • prif ddigwyddiadau Rhyfel y Degwm, gan gynnwys<br>  • ffurfio Cynghrair i Wrthwynebu'r Degwm yn Llanarmon-yn-Iâl<br>  • aflonyddwch i gefnogi ffermwyr gan gynnwys y rhai ym Mochdre a Llangwm. | Sir Ddinbych yw pencadlys Cynghrair Tir Cymru.<br><br>Digwyddiadau Llangwm a Mochdre yn 1887 a Llanefydd yn 1888. | **Gweithgareddau:**<br>Dyfeisiwch ddiagram sy'n esbonio achosion a chwrs rhyfel y degwm yng Ngogledd Cymru.<br><br>Fel grŵp o ddinasyddion o Sir Ddinbych ar y pryd, paratowch daflen ymgyrchu yn esbonio eich bod yn gwrthwynebu talu'r degwm.<br><br>Esboniwch bwyntiau allweddol erthygl *The Spectator*.<br><br>Fel un o gynrychiolwyr yr awdurdodau, esboniwch sut byddech chi'n ymateb i'r ymgyrch i wrthwynebu'r degwm a chyfiawnhewch eich penderfyniadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall digwyddiadau rhyfeloedd y degwm a'u pwysigrwydd. | **Gwefan(nau):**<br>Rhyfel y Degwm yng Nghymru \| Casgliad y Werin Cymru<br><br>Thomas Gee - Wikipedia<br><br>The Anti-Tithe Agitation in Wales. All who desire to understand » 4 Jan 1890 » The Spectator Archive (bydd angen crynhoi)<br><br>**Llyfr(au):**<br>Bulaitis, J. 2024. *The Tithe War in England and Wales, 1881–1936* | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>I ba raddau mai crefydd oedd prif achos y mudiad i wrthwynebu'r degwm yn eich barn chi?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y dadleuon ynghylch gwreiddiau'r mudiad i wrthwynebu'r degwm. | *A Curious Rural Revolt,* Penodau 1-3<br><br>Morgan, K. 1982. *Wales: Rebirth of a Nation* Pennod 2 | |
| • canlyniadau Rhyfel y Degwm, gan gynnwys:<br>  • y driniaeth a roddwyd i'r rhai a wrthododd dalu'r degwm neu a oedd yn gysylltiedig ag aflonyddwch<br>  • yr ymdrechion i ddatrys problem y degwm gyda Deddf y Degwm yn 1891 a Chomisiwn Tir Cymru. | Yr arestiadau a'r anafiadau a ddilynodd y protestiadau, gan gynnwys canmoliaeth i'r protestwyr yn *Baner ac Amserau Cymru.*<br><br>Goblygiadau Deddf y Degwm yn 1891, gan gynnwys trosglwyddo bil y degwm o'r tenant i'r landlord.<br><br>Goblygiadau hyn ar ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru. | **Gweithgareddau:**<br>Trafodwch – beth oedd canlyniad uniongyrchol yr aflonyddwch yng Ngogledd Cymru?<br><br>Edrychwch ar y darn o'r enw *Welsh Land Commission* o Hansard. Beth sy'n digwydd yn y ddadl fer hon?<br><br>Rhowch grynodeb o ganlyniadau Rhyfel y Degwm gan ddefnyddio *Section 1 of the Tithe Act 1891* ac ymchwiliwch i darddiad, gweithredoedd a chanfyddiadau'r Comisiwn Brenhinol ar Dir yng Nghymru a Sir Fynwy (Comisiwn Tir Cymru) 1896.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith Rhyfeloedd y Degwm.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Pam oedd *The Spectator* yn gwrthwynebu canfyddiadau Comisiwn Tir Cymru?<br><br>A wnaeth rhyfel y degwm gyfrannu at ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru? | **Gwefan(nau):**<br>Wales—Anti-Tithe League. (Hansard, 23 May 1887)<br><br>Section 1 of the Tithe Act 1891<br><br>The Welsh Land Commission's Report. » 7 Nov 1896 » The Spectator Archive (will need to be summarised)<br><br>Welsh Church Act 1914 - Wikipedia<br><br>Welsh Land Commission. (Hansard, 30 March 1896)<br><br>**Llyfr(au):**<br>John Bulaitis, | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddechrau meithrin dealltwriaeth o ddymuniadau croes grwpiau gwleidyddol gwahanol. | *The Tithe War in England and Wales*, *1881-1936*<br>*A Curious Rural Revolt,* Penodau 1-3 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Mae safleoedd Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Stori Caerdydd a Chastell Cyfarthfa i gyd ar gael yn ddigidol neu'n bersonol.<br><br>Sianel YouTube Castell Cyfarthfa<br><br>https://amgueddfa.cymru/dysgu |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd astudio pobl a phrotest yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o hawliau dynol yn ogystal ag agweddau eraill tuag at anghenion sylfaenol pobl. |
| gweithio ar y cyd | Mae cyfleoedd i ddysgwyr gydweithio drwy gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth, gwaith grŵp a dadleuon. Gellir gwneud hyn drwy gynnal trafodaeth ar effaith protest yng Nghymru ac effaith gymdeithasol ehangach y Chwyldro Diwydiannol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Opsiwn 1.5 Modern: Mae Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio gwrthryfeloedd a phrotest ym Merthyr, Beca, Casnewydd a Rhyfel y Degwm yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'n rhoi cyfle i archwilio'r newidiadau yng Nghymru yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ac i holi sut gwnaeth y Cymry ddelio â'r caledi o ddydd i ddydd. Mae cyfle drwyddi draw hefyd i gymharu Cymru â gweddill y byd yn y cyfnod hwn ac ystyried ei lle yn y byd. |
| Cynaliadwyedd | Yn yr uned hon, mae cyfleoedd i ddysgwyr ystyried effaith y Chwyldro Diwydiannol ar yr hinsawdd. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn gallu archwilio materion yn ymwneud â phrotest a hawliau dynol.<br>Mae'r testunau yn ystyried y caledi a wynebwyd gan bobl yng Nghymru a'r ffyrdd yr oeddent yn credu y gallent sefyll dros eu hawliau. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Mae'r uned hon i gyd yn archwilio bywyd gwaith a'r gwahaniaethau rhwng amaethyddiaeth a diwydiant.<br>Mae'n ystyried yr effaith ar fywydau pobl Cymru ac mae'n archwilio hawliau ac amodau gweithwyr. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifiadol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td>Dinasyddiaeth</td><td>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br>Enghraifft<br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun.</td></tr>
<tr><td>Rhyngweithio a Chydweithio</td><td>Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br>Enghraifft<br>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio.</td></tr>
<tr><td>Cynhyrchu</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.<br>Enghraifft<br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td>Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>Enghreifftiau<ul><li>Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.</li><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn.<br><br>Enghreifftiau<ul><li>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.</li><li>Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.</li><li>Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.</li><li>Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.</li><li>Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cynllunio a Threfnu</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.<br><br>Enghraifft</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 1.5 Modern: Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Amaethyddol | Cyfeirio at rywbeth sy'n gysylltiedig â ffermio. |
| Economi | Cyflwr gwlad o ran ei chyllid a chynhyrchu nwyddau. |
| Y Chwyldro Diwydiannol | Y broses o newid o economi amaethyddol i economi diwydiannol a ddigwyddodd rhwng tua 1750 ac 1850. |
| Protest | Mynegi gwrthwynebiad i rywbeth. |
| Radicaliaeth | Pobl sy'n ffafrio newid eithriadol. |
| Cymdeithas | Cyfansoddiad y bobl sy'n cyd-fyw mewn cymuned benodol. |
| Fideos The Great Reform Act | Deddf a basiwyd yn 1832 i fynd i'r afael â dosbarthiad seddi yn anghyfartal yn y senedd. |
| Y degwm | Ffi a dalwyd i Eglwys Loegr. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.